FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

Adroddiad ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

27 - 30 Ebrill 2003

Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodaeth cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wella diogelwch a hyder y defnyddiwr o ran bwyd. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau unedol, yn bennaf, yw gorfodi cyfraith bwyd y DU sy'n gysylltiedig â diogelwch, hylendid, cyfansoddiad a labelu bwyd, bwyd a fewnforiwyd a bwydydd anifeiliaid. Yn bennaf, caiff y swyddogaethau rheoleiddio hyn sy'n perthyn i awdurdodau lleol, eu cynnig drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio atodedig yn archwilio Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Awdurdod Lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys y trefniadau lleol a weithredir ar gyfer archwilio busnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid, samplo a dadansoddi, rheolaeth fewnol, hyrwyddo hylendid bwyd a gweithgareddau addysgiadol. Dylid cydnabod y ceir cryn amrywiaeth yn y dull a'r modd y gall awdurdodau lleol gynnig eu gwasanaethau gorfodi bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol yn ôl Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd, 'Y Safon', a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth yn rhan o Gytundeb Fframwaith ar Orfodaeth Cyfraith Fwyd Awdurdodau Lleol, ac sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arfer da a chynnig gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd.

Hefyd, mae'r adroddiad yn cynnwys cynllun gweithredu, a baratowyd gan yr Awdurdod, i ymdrin â chanfyddiadau'r archwiliad.

I'ch cynorthwyo, gellir dod o hyd i restr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio yn Atodiad A.

	CYNNWYS	Tud.
1	**Cyflwyniad**	**4**
	Rheswm am yr Archwiliad	**4**
	Cwmpas yr Archwiliad	**4**
	Cefndir	**4**
2	**Crynodeb Gweithredol**	**7**
	Canfyddiadau'r Archwiliad	
3	Trefnu a Rheoli	**9**
4	Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd	**13**
5	Swyddogion Awdurdodedig	**14**
6	Cyfleusterau ac Offer	**18**
7	Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**20**
8	Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd	**24**
9	Egwyddor yr Awdurdod Cartref	**25**
10	Cyngor i Fusnesau	**27**
11	Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**28**
12	Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**30**
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd	**34**
14	Digwyddiadau Diogelwch Bwyd	**36**
15	Gorfodaeth	**37**
16	Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu	**41**
17	Cwynion am y Gwasanaeth	**43**
18	Cysylltiad â Sefydliadau Eraill	**44**
19	Monitro Mewnol	**45**
20	Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd	**47**
21	Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**48**
	Atodiad	
A	Geirfa	
	Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau'r archwiliad o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth. Mae copïau caled ar gael o Lyfrgell yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Aviation House, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH, Ffôn: 020 7276 8181. Mae'r rhain yn destun i ffi o £7.50 ar gyfer eu hatgynhyrchu a'u dosbarthu, yn ogystal â £1.50 ar gyfer eu postio a'u pecynnu.

Rheswm am yr Archwiliad

1.2 Rhoddodd Deddf Safonau Bwyd 1999 y pwer i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau a monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol. Cynhaliwyd archwiliad y gwasanaeth bwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o dan adran 12(4) y Ddeddf, yn rhan o raglen archwilio flynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

1.3 Archwiliwyd yr Awdurdod fel rhan o raglen o archwiliadau llawn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru

Cwmpas yr Archwiliad

1.4 Cwmpas yr archwiliad oedd gwasanaeth gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a chyfraith bwydydd anifeiliaid Conwy. Cynhaliwyd elfen ar-y-safle'r archwiliad yn swyddfeydd yr Awdurdod ym Mae Colwyn, rhwng 27 - 30 Ebrill 2004.

1.5 Aseswyd cydymffurfiaeth yr Awdurdod yn erbyn Y Safon gan yr archwiliad, gan ddefnyddio protocolau archwilio ASB/AP3/1 - ASB/AP21/1. Mabwysiadwyd Y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000, (diwygiwyd Gorffennaf 2004), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Gellir dod o hyd i'r Cytundeb Fframwaith a'r protocolau archwilio ar wefan yr Asiantaeth.

Cefndir

1.6 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Awdurdod Unedol Cymreig, sy'n cynnwys ardal o ryw 1,130 o gilometrau sgwâr, y gorwedd 40% ohoni o fewn Parc Cenedlaethol Eryri yng ngogledd-orllewin Cymru.

1.7 Mae ardal yr Awdurdod yn cynnwys 75 cilometr o arfordir, a dyna lle gorwedd y rhan fwyaf o ddatblygiadau trefoledig yr ardal, gan gynnwys trefi glan-y-môr Llandudno, Conwy a Bae Colwyn.

1.8 Cyfanswm y boblogaeth breswyl arferol yw rhyw 109,765, y mae 82% ohonynt yn byw ar hyd y rhimyn ar hyd yr arfordir, ac mae 32% ohonynt yn siarad Cymraeg.

1.9 Mae ymwelwyr yn ystod yr haf yn cynyddu'r boblogaeth hyd at bron i chwarter miliwn, ac fe'u gwasanaethir gan ganolfannau arlwyo, gwestai, a chyfleusterau hamdden eraill niferus, llawer ohonynt yn gweithredu yn dymhorol.

1.10 Mae'r ardal hefyd yn boblogaidd gyda phobl wedi ymddeol, ac o ganlyniad ceir nifer uchel o gartrefi gofal a nyrsio cofrestredig, y mae angen eu harolygu'n rheolaidd.

1.11 Mae'r ardal yn cynnwys gwelyau cregyn gleision, ac mae'r awdurdod yn ymwneud â monitro ansawdd y dwr a'r cregynbysgod, gan roi trwyddedau symud a dogfennaeth arall, a gorfodi yn y gwaith puro cregyn gleision lleol.

1.12 Yn ei hanfod, amaethyddol yw natur Dyffryn Conwy a'r ardal amgylchynol, ac yn ogystal â thwristiaeth, mae cyflogaeth yn cynnwys amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu ysgafn.

1.13 Gan Adran Diogelu'r Cyhoedd Cyfarwyddiaeth Ysgrifennydd Sir yr Awdurdod, a leolir yn y Ganolfan Ddinesig ym Mae Colwyn, yr oedd y cyfrifoldeb am orfodi'r gyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid.

1.14 Roedd Swyddogion Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn gyfrifol am hylendid a diogelwch bwyd, ac roedd swyddogion y Gwasanaeth Safonau Masnach yn gyfrifol am orfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

1.15 Roedd Swyddfeydd yr Awdurdod ar agor i'r cyhoedd rhwng 08.45 a 17.15 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

1.16 Yn ei Gynllun Gwasanaethu, nododd yr Awdurdod y bwriedid cynnal y gweithgaredd canlynol yn ystod 2004 – 2005.

Safleoedd sy'n Destun Arolygiad	**Nifer y Safleoedd**
Gorfodaeth Hylendid Bwyd	1828
Gorfodaeth Safonau Bwyd	1474
Gorfodaeth Bwydydd Anifeiliaid Cofrestredig	22

Gweithgaredd Gorfodi a Gynlluniwyd	**Nifer y Gweithredoedd**

Arolygiadau hylendid bwyd	1009
Arolygiadau safonau bwyd	349
Arolygiadau bwydydd anifeiliaid	22

2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Roedd yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau o ran samplo bwyd a thrwyddedu siopau cigyddion mewn modd cynhwysfawr ac ystyriol. Nodwyd bod yr Awdurdod yn defnyddio'r ystod lawn o weithredoedd gorfodi ffurfiol yn yr amgylchiadau priodol.

2.2 Roedd y ffordd y gweithredid cronfa ddata yr Awdurdod yn achos pryder am nad oedd cyfanswm yr arolygiadau a oedd yn hwyr yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth gynllunio gwaith ar gyfer y dyfodol. Golygai diffyg gweithredu ar ran yr Awdurdod o ran safleoedd gweithgynhyrchu bwydydd anifeiliaid a safonau bwyd nad oedd elfennau sylweddol o orfodaeth ar draws y gadwyn fwyd gyfan yn cael digon o sylw. Yn ogystal, roedd angen adolygu gweithdrefnau awdurdodi'r Awdurdod.

2.3 Yn ddiweddar, cyflwynodd yr Awdurdod weithdrefnau newydd sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau gorfodi ac, ar ôl eu gweithredu'n llawn, byddant yn helpu i sicrhau gwelliannau o ran darparu gwasanaeth.

2.4 Cryfderau'r Awdurdod

Samplo Bwyd

Cynhaliwyd gweithgareddau samplo hylendid bwyd a samplo safonau bwyd mewn safleoedd nad ydynt yn gweithgynhyrchu yn unol â gweithdrefnau'r Awdurdod. Cadwyd y cofnodion ffeil yn dda, a chymerwyd camau dilynol priodol.

Trwyddedu Siopau Cigyddion

Roedd siopau cigyddion yn cael eu trwyddedu mewn ffordd arbennig o gynhwysfawr. Roedd swyddogion yn llenwi ffurflenni safonau, a oedd yn cofnodi gweithgareddau busnes, hyfforddiant hylendid bwyd a systemau HACCP yn systematig, ac asesiad o gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

2.5 Meysydd Allweddol ar gyfer eu Gwella gan yr Awdurdod

Cronfa Ddata

Roedd yr archwilwyr yn bryderus am gywirdeb y gronfa ddata a'r defnydd ohoni. Mae anghywirdeb yn effeithio ar allu'r Awdurdod i gynllunio rhaglen waith effeithiol a chynhyrchu gwybodaeth monitro perfformiad gynhwysfawr, ac mae'n peryglu gallu'r Awdurdod i gyflwyno ystadegau priodol i lywodraeth ganol.

Gorfodaeth Bwydydd Anifeiliaid

Nid oedd llawer o dystiolaeth fod yr Awdurdod yn cynnal gweithgareddau gorfodaeth priodol ar gyfer bwydydd anifeiliaid. Rhaid adolygu datganiadau cofrestru a cheisiadau am gymeradwyaeth bwydydd anifeiliaid, gweithredu rhaglen arolygu ar sail risg, cynnal arolygiadau priodol, a chadw a diweddaru cofnodion.

Amlder Arolygiadau Safonau Bwyd a Hylendid Bwyd

Nid oedd yr Awdurdod yn cynnal arolygiadau safonau bwyd a hylendid bwyd yn unol â'r amlder sylfaenol sy'n ofynnol gan Godau Ymarfer Rhifau 8 a 9 Deddf Diogelwch Bwyd. Dylid cynnal arolygiadau yn unol â'r amlder sylfaenol a bennir i sicrhau y nodir unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu busnesau bwyd ac yr eir i'r afael â nhw mewn ffordd amserol.

Safonau Bwyd Safleoedd Gweithgynhyrchu

Roedd diffyg gweithgarwch gorfodi safonau bwyd mewn safleoedd gweithgynhyrchu (gan gynnwys arolygiadau a samplo) yn dangos nad yw'r Awdurdod yn defnyddio ymagwedd ar sail risg i orfodaeth yn y safleoedd hyn. Hefyd, effeithiodd hyn yn andwyol ar allu'r Awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldebau yn unol ag Egwyddor yr Awdurdod Cartref.

Monitro Mewnol

Mae diffyg monitro mewnol effeithiol wedi cyfrannu at anallu i gyrraedd y targedau a nodwyd yng Nghynllun Darparu Gwasanaeth Bwyd yr Awdurdod. Nid oedd systemau mewnol yr Awdurdod yn amlygu materion o anghydffurfio â gofynion Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Codau Ymarfer ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.

Awdurdodi Swyddogion

Roedd nifer o bryderon o ran y prosesau a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod wrth awdurdodi ei swyddogion. Cymhlethwyd y rhain gan y diffyg cofnodion i brofi'r camau a gymerwyd.

Canfyddiadau'r Archwiliad

3 Trefnu a Rheoli

3.1 Gweithredai'r Awdurdod lywodraeth leol ar sail arddull Gabinet, gyda Chyfansoddiad a gynhwysai drefniadau ar gyfer dirprwyo swyddogaethau o'r Adran Weithredol i Swyddogion. Yn ôl y Cyfansoddiad, a adolygwyd ac a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2002, daeth gorfodi'r gyfraith fwyd oddi mewn i bortffolio'r Aelod dros Ddiogelwch Cymunedol a Rheoleiddio. Roedd y Cyfansoddiad ar gael ar wefan yr Awdurdod.

3.2 Gan y Tîm Diogelwch Bwyd oedd y cyfrifoldeb am gyflawni dyletswyddau gorfodi hylendid bwyd yr Awdurdod. Gan y Tîm Safonau Masnach oedd y cyfrifoldeb am orfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Roedd y ddau wasanaeth yn rhan o Adran Diogelu'r Cyhoedd Cyfarwyddiaeth Ysgrifennydd Sirol yr Awdurdod.

3.3 Roedd fframwaith cynllunio corfforaethol yr Awdurdod yn cynnwys y Cynllun Gwella Corfforaethol, sef 'Camu Tuag at Lwyddiant', a gynhyrchwyd ac a adolygwyd yn flynyddol fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella.

3.4 Prif flaenoriaethau'r Awdurdod o dan Gynllun 2003 - 2004 oedd:

- Adfywio economi'r ardal;
- Cynnig y cychwyn gorau a chymorth parhaus i'n cymuned gyfan;
- Bodloni anghenion y rhai bregus yn ein cymuned;
- Gwneud yr ardal yn lle diogel, iach a glân i fyw;
- Amddiffyn a gwella treftadaeth Conwy;
- Gwella safonau cartrefi, yn enwedig i'r rheiny sy'n byw mew tai amlbreswyliaeth.

3.5 Cynlluniwyd y prif flaenoriaethau o fewn fframwaith Cytundeb Polisi yr Awdurdod â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a nodai angen i weithredu er mwyn sicrhau:

- Cyfleoedd gwell i ddysgu;
- Economi gwell a chryfach;
- Iechyd a lles gwell;
- Ansawdd bywyd gwell;
- Llywodraeth symlach a gwell.

3.6 Hefyd, nododd y Cynllun Gwella bod angen i'r Awdurdod gynnal asesiad risg i ymdrin â'r perygl:

- O fethu â bodloni nodau ac amcanion polisi;
- O fethu â bodloni rhwymedigaethau statudol;
- O dan berfformio yn erbyn safonau, targedau, ac anghenion a disgwyliadau defnyddwyr;
- O drefnu neu ddefnyddio adnoddau mewn ffordd aneffeithlon;
- I'w enw da, ei safle a'i hygrededd;
- O ddiffyg gwybodaeth.

Ni chynigiwyd gwybodaeth am yr asesiad risg hwn adeg yr archwiliad ac, felly, nid oedd yn bosibl pennu a oedd yr Awdurdod wedi ymdrin â'r risgiau o ran ei gyfrifoldebau gorfodi cyfraith bwyd a bwydydd anifeiliaid.

3.7 Nododd y Cynllun Gwella berfformiad yr Awdurdod mewn blynyddoedd blaenorol, a gosododd dargedau perfformiad yn erbyn dangosyddion 2003-2004. Y dangosyddion perfformiad a oedd yn berthnasol i orfodaeth bwyd a bwydydd anifeiliaid oedd:

- Canran yr arolygiadau o safleoedd bwyd a ddylai fod wedi'u cynnal, a gynhaliwyd ar gyfer:
  (a) safleoedd risg uchel;
  (b) safleoedd eraill;
- Sgôr yn erbyn rhestrau gwirio o arfer gorau gorfodi ar gyfer iechyd yr amgylchedd ac ar gyfer safonau masnach.

3.8 Cofnododd y Cynllun Gwella fod yr Awdurdod wedi cynnal 97% o'r arolygiadau hylendid bwyd mewn safleoedd risg uchel a oedd i'w

cynnal yn ystod 2002-2003, ac 81% o'r arolygiadau mewn safleoedd eraill, yn erbyn targedau perfformiad o 100%.

3.9 Lleihawyd y targed perfformiad ar gyfer arolygiadau hylendid bwyd a gynlluniwyd mewn safleoedd bwyd 'eraill' i 50% yng Nghynllun Gwella 2003-2004. Ni roddwyd rheswm am y lleihad arfaethedig hwn mewn perfformiad, a ymddangosai fel petai'n anghytuno â gofynion Cod Ymarfer Rhif 9 Deddf Diogelwch Bwyd.

3.10 Roedd yr Awdurdod wedi llunio Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid ar gyfer 2003 - 2004 a oedd, ar y cyfan, yn bodloni gofynion yr Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith am Orfodi Cyfraith Fwyd yr Awdurdod Lleol. Cymeradwywyd hyn gan y Cabinet ym mis Mai 2003. Roedd y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer 2004 - 2005 ar ffurf ddrafft, ac roedd i'w gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mai 2004 er mwyn ei gymeradwyo.

3.11 Fodd bynnag, nid oedd y Cynllun yn nodi sut roedd Awdurdod yn bwriadu mynd i'r afael â rhai materion na chyflawnwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, e.e. arolygiadau hylendid bwyd a oedd yn hwyr, ac arolygiadau a samplo bwydydd anifeiliaid a oedd yn hwyr.

3.12 Roedd y Cynllun hefyd yn cynnwys Cynlluniau Gweithredu Gwella Gwasanaeth ar gyfer y Timau Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach, a ddatblygwyd o fewn fframwaith Cynllun Gwella Corfforaethol yr Awdurdod, a phedwerydd amcan hwn oedd 'gwneud yr ardal yn lle diogel, iach a glân i fyw'.

3.13 Ymgorfforai Cynllun Gwasanaeth 2003 – 2004 adroddiad ac adolygiad blynyddol o waith bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ystod 2002 – 2003, ac fe'i cymeradwywyd gan Gabinet yr Awdurdod ar 15 Mai 2003. Nid oedd nodyn y cyfarfod yn dangos a oedd Aelodau wedi trafod yr adnoddau ychwanegol y nodwyd bod eu hangen i gyflwyno Cynlluniau Gweithredu Gwasanaeth a Gwella Gwasanaeth a gytunwyd.

3.14 Roedd y Cynlluniau Gwasanaeth yn cynnwys tablau o nifer y safleoedd sy'n destun i orfodaeth hylendid bwyd a safonau bwyd, eu proffiliau risg unigol, a rhaglenni arolygu a gynllunnid. Rhoddai hyn ddarlun dryslyd o gyfrifoldebau gorfodi cyfraith fwyd yr Awdurdod a'r rhaglenni arolygu a oedd yn yr arfaeth ganddo. Nid oedd adroddiadau a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad yn egluro'r sefyllfa.

3.15 Nododd Cynllun Gwasanaeth 2004 - 2005 bod 5.6 o swyddogion FTE (Cyfwerth ag Amser Llawn) ar gael i ymdrin â gorfodi hylendid bwyd yn erbyn gofyniad amcangyfrifedig o 5.5, er y disgwylid i 1.5 FTE fod ar absenoldeb mamolaeth am ran o'r flwyddyn. Ni nodwyd nifer y swyddogion FTE sydd ar gael i orfodi safonau bwyd a bwydydd

anifeiliaid yn y Cynllun Gwasanaeth, er yr amcangyfrifwyd mai'r gofyniad oedd 1.7 FTE.

3.16 Mewn dogfennaeth cyn-archwilio, adroddodd yr Awdurdod bod 1.2 o swyddogion FTE yn ymdrin â gorfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid, sef diffyg o 0.5 yn erbyn amcangyfrif y Cynllun Gwasanaeth.

3.17 Ni chafodd lefel gyffredinol y gwariant a oedd yn gysylltiedig â chynnig y gwasanaeth bwyd a bwydydd anifeiliaid, y duedd o ran twf neu ostyngiad, a'r dadansoddiad manwl fel a fanylwyd yn y Cytundeb Fframwaith, eu nodi yn y Cynllun Gwasanaeth.

Argymhellion

3.18 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod y cynllun darparu gwasanaeth yn bodloni'r holl feini prawf a nodwyd yn yr Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth ym Mhennod 1 Y Cytundeb Fframwaith. [Y Safon – 3.1]

(ii) Ymdrin â'r holl amrywiannau wrth fodloni'r cynllun darparu gwasanaeth yn nhrefniadau gwasanaeth y flwyddyn ddilynol. [Y Safon – 3.3]

4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd

4.1 Nid oedd yr Awdurdod wedi cwblhau dogfennu ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer yr holl weithgareddau gorfodi a gynhwysir gan y Safon. Dim ond yn ddiweddar y drafftiwyd nifer o'r gweithdrefnau a ddogfennwyd, ac nid oeddent wedi cael eu gweithredu'n llawn.

4.2 Nid oedd y polisïau a'r gweithdrefnau hynny a weithredwyd ers cryn amser wedi cael eu hadolygu yn rheolaidd. Er enghraifft, ni ddiweddarwyd y polisi a'r arweiniad a ddogfennwyd ynghylch awdurdodi swyddogion gorfodaeth cyfraith fwyd i gymryd i ystyriaeth newidiadau i Gyfansoddiad yr Awdurdod a fabwysiadwyd ym mis Hydref 2002.

4.3 Roedd yr Awdurdod yn gweithredu system reoli ar gyfer ei ddogfennaeth, ac roedd gan swyddogion fynediad at fersiynau presennol o ddeddfwriaeth ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.

Argymhelliad

4.4 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau a ddogfennwyd ar gyfer gweithgareddau gorfodi sy'n gynwysedig yn Y Safon yn cael eu hadolygu ar gyfnodau priodol, a phryd bynnag y ceir newidiadau i ddeddfwriaeth neu arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon - 4.1]

5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Rhoddai atodlen yr Awdurdod o ddirprwyaethau swyddogion bwer dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, a'r holl Brif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth benodi Arolygwyr a Swyddogion Priodol yr Awdurdod.

5.2 Roedd gan Ysgrifennydd y Sir a Phrif Swyddog Rheoleiddio'r Amgylchedd y pwerau dirprwyedig angenrheidiol o dan y Cyfansoddiad i benodi Swyddogion ac Arolygwyr Awdurdodedig o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 a Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn eu trefn. Roeddent wedi llofnodi'r dogfennau awdurdodi swyddogion a welwyd.

5.3 Roedd gan yr Awdurdod 'Polisi ac Arweiniad ynghylch Awdurdodi Swyddogion Gorfodi Cyfraith Fwyd', a ddogfennwyd, a oedd yn gymwys i awdurdodi swyddogion o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, er nad oedd wedi cael ei ddiweddaru i ymgorffori newidiadau i Gyfansoddiad yr Awdurdod a weithredwyd ers 1998.

5.4 Nodai'r weithdrefn a ddogfennwyd:

- Y byddai cymwysterau, profiad a chymhwysedd swyddogion yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf yng Nghod Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd;
- Na fyddai swyddogion yn cael eu penodi pe na fyddent yn bodloni'r safonau gofynnol, a fanylwyd mewn cyfres o Fatricsau Cymhwysedd a gynhwyswyd yn y weithdrefn;
- Y byddai'n rhaid i swyddogion ddangos tystysgrifau cymhwyster cyn cadarnhau penodiadau.

5.5 Rhestrai Matrics Cymhwysedd swyddogion yr oedd eu cymwysterau, eu profiad a'u cymhwysedd wedi cael eu hasesu, a lefel yr awdurdod a roddwyd i bob swyddog. Nid oedd y Matrics Cymhwysedd yn cynnwys swyddogion a awdurdodwyd ond nad oedd mwyach yn gorfodi'r gyfraith fwyd, naill ai am eu bod wedi symud i swyddogaethau eraill neu am nad oeddynt yn cael eu cyflogi gan yr Awdurdod mwyach. Ni restrwyd un swyddog, a oedd yn awdurdodedig, yn y Matrics Cymhwysedd.

5.6 Nodai'r weithdrefn ddogfenedig sut y byddid yn asesu ac yn ymdrin â hyfforddiant strwythuredig a gofynion cymhwysedd Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd o ran penodi ac awdurdodi swyddogion

newydd. Er hynny, nid oedd unrhyw gofnod ynglyn â'r asesiad cymhwysedd neu'r hyfforddiant strwythuredig i staff newydd eu penodi.

5.7 Nid oedd yr Awdurdod yn gallu dangos copïau o dystysgrifau cymwysterau dau swyddog a benodwyd yn Swyddogion Awdurdodedig o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

5.8 Nid oedd unrhyw gofnod o gymwysterau neu hyfforddiant swyddogion neu gontractwyr a fu'n gweithio fel Swyddogion Awdurdodedig yn ystod y cyfnod hyd at yr archwiliad ond nad oedd yn gweithio i'r Awdurdod mwyach.

5.9 Ni ymddangosai fod gan un swyddog, a benodwyd yn Swyddog Awdurdodedig, y cymwysterau angenrheidiol ar gyfer lefel awdurdod swyddog. Roedd yr Awdurdod o'r farn bod gan y swyddog gymhwyster cyfwerth, fel y darparwyd ar ei gyfer yn y Cod Ymarfer, ond nid oeddent wedi ceisio cadarnhad priodol cyn rhoi'r awdurdod i'r swyddog.

5.10 Roedd y Polisi Gorfodi Diogelwch Bwyd, dyddiedig Ionawr 2000, yn ymdrin ag awdurdodi swyddogion hefyd. Nodai:

- Rhaid i bob Swyddog Gorfodaeth Bwyd gael ei awdurdodi yn ysgrifenedig.

- Wrth awdurdodi swyddogion i gymryd camau gorfodi o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, rhaid rhoi ystyriaeth i gymwysterau a phrofiad swyddogion ac, yn enwedig, i Godau Ymarfer statudol perthnasol.

5.11 Nodai'r Polisi Gorfodi Diogelwch Bwyd hefyd: "Rhaid i bob swyddog gorfodaeth bwyd gael ei awdurdodi i atafaelu a chadw bwydydd", nad oedd yn cymryd gofynion Cod Ymarfer Rhif 19 o ran cymwysterau a phrofiad i ystyriaeth.

5.12 Rhoddwyd dogfennau awdurdodi i'r holl swyddogion awdurdodedig a oedd yn cadarnhau eu penodiadau. Dangosai cardiau awdurdodi a gyflwynwyd i aelodau'r Tîm Diogelwch Bwyd faint o awdurdod a oedd gan bob swyddog. Roedd y dogfennau a roddwyd i'r staff Safonau Masnach yn awdurdodiadau 'blanced' amhenodol a arweiniai at staff nad oeddent yn gorfodi'r gyfraith fwyd er gwaetha'r ffaith bod yr awdurdod ganddynt i wneud hynny.

5.13 Nodwyd nad oedd swyddogion wedi cael eu hawdurdodi'n benodol i weithredu o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 o ran cynnyrch a ddeilliai o anifeiliaid, gan gynnwys bwyd a fewnforiwyd a sgil-gynhyrchion anifeiliaid, ac ati.

5.14 Roedd gan rai swyddogion ddogfennau awdurdodi a oedd wedi dyddio gan nad oeddent wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r ffaith bod y swyddogion wedi peidio â gorfodi'r gyfraith fwyd.

5.15 Penodwyd swyddogion arweiniol â chanddynt gyfrifoldeb am orfodi deddfwriaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

5.16 Dangosai archwiliad o'r arolygu a chofnodion eraill bod rhai swyddogion wedi ymddwyn y tu allan i gwmpas eu hawdurdod.

5.17 Roedd Cynllun Datblygu ac Adolygu corfforaethol gan yr Awdurdod, ac roedd Adran Diogelu'r Cyhoedd wedi ennill achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl. Roedd materion hyfforddi staff hefyd yn gynwysedig yn y 'Gweithdrefn Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant Cymhwysedd' adrannol a'r 'Polisi ac Arweiniad ynghylch Awdurdodi Swyddogion Gorfodi Cyfraith Fwyd'.

5.18 Nodai'r Polisi ac Arweiniad ynghylch Awdurdodi Swyddogion Gorfodi Cyfraith Fwyd y bydd "pob swyddog yn cael isafswm o 10 awr o hyfforddiant parhaus a strwythuredig y flwyddyn, fel a nodwyd, monitrwyd a chofnodwyd drwy weithdrefnau corfforaethol 'Buddsoddwyr Mewn Pobl'.

5.19 Fodd bynnag, nodwyd bod rhai aelodau o'r Timau Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach heb dderbyn yr hyfforddiant gofynnol, ac nad oedd cofnodion y Tîm Diogelwch Bwyd yn bodloni gofynion y weithdrefn BMP o ran eu bod yn anghyflawn.

5.20 Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod swyddogion wedi cael unrhyw hyfforddiant penodol o ran Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Troseddol (PACE), Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA), neu Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol. Fodd bynnag, roedd Rhaglen Hyfforddi 2004 – 2005 i Swyddogion Diogelwch Bwyd yn canolbwyntio ar PACE, RIPA, Polisi Gorfodi'r Awdurdod, a pharatoi achosion i'w herlyn. Nid oedd unrhyw raglen hyfforddi ddogfenedig i'r Tîm Safonau Masnach.

5.21 Yn gyffredinol, roedd cofnodion am hyfforddiant a gynhaliwyd wedi'u cadw'n dda, er nad oeddent yn cynnwys nodau a chynnwys y cwrs bob tro, na pharhad ac asesiad hyfforddiant a wnaed.

5.22 Dangosodd adolygiad Cynllun Gwasanaeth 2002 – 2003 y byddai angen adnoddau staff ychwanegol er mwyn galluogi'r gwasanaeth i gynnig gorfodaeth cyfraith bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ôl y lefel a gytunwyd gan Gabinet yr Awdurdod ar 15 Mai 2003, pan fabwysiadodd Gynllun Gwasanaeth 2003 - 2004.

Argymhellion

5.23 Dylai'r Awdurdod:

(i) Ddiwygio, cynnal a gweithredu'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer awdurdodi swyddogion, ar sail eu cymhwysedd ac yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 5.1]

(ii) Sicrhau ei fod wedi penodi nifer digonol o swyddogion awdurdodedig i gyflawni'r rhaglen a nodwyd yn ei gynllun darparu gwasanaeth, a bod gan swyddogion gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad addas, yn gyson â'u hawdurdodiad a'u dyletswyddau, yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 5.3]

(iii) Sefydlu, cynnal a gweithredu rhaglen hyfforddi ddogfenedig, i gynnwys agweddau ar y gwaith y mae ei swyddogion yn ymwneud ag ef. Lle darperir hyfforddiant, dylid cadw manylion am gynnwys ac amcanion y cwrs, parhad y cwrs ac unrhyw asesiad o'r hyfforddiant ar ffeil. [Y Safon – 5.4]

(iv) Sicrhau y caiff cofnodion o gymwysterau academaidd perthnasol neu gymwysterau eraill, hyfforddiant a phrofiad pob swyddog awdurdodedig a staff cymorth priodol, eu cadw yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 5.5]

6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd yr Awdurdod wedi peri bod y cyfleusterau a'r offer sy'n angenrheidiol i ganiatáu cynnal yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth ar gael.

6.2 Defnyddiwyd cofnod o'r cynnwys i gofnodi manylion yr holl eitemau bwyd a gedwid yn yr oergell at ddibenion tystiolaeth. Fodd bynnag, roedd anghysondebau rhwng y manylion yn y cofnod a chynnwys yr oergell.

6.3 Sefydlwyd gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer cynnal a chadw a chalibro offer i sicrhau bod offer wedi'u cynnal a'u cadw a'u calibro'n briodol, a'u tynnu'n ôl o'r gwasanaeth o ganfod eu bod yn ddiffygiol.

6.4 Adeg yr archwiliad, dim ond yn ddiweddar y gweithredasid y weithdrefn ddogfenedig ac, felly, nid oedd yn bosibl pennu a oedd yn effeithiol. Nodwyd nad oedd y weithdrefn yn nodi amledd gwiriadau ar offer monitro tymheredd a ddefnyddiwyd at ddibenion gorfodi na'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwiriadau hynny, na'r goddefiant derbyniol.

6.5 Yr unig gofnod o galibro a oedd ar gael oedd hwnnw ar gyfer y thermomedr cyfeirio.

6.6 Yn gyffredinol, ystyriwyd bod cronfa ddata'r safle yn gallu cynnig y wybodaeth y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ei mynnu. Fodd bynnag, nododd yr archwiliad ddiffygion yn y ffordd y gweithredid y system, a oedd yn effeithio ar allu'r Awdurdod i roi'r wybodaeth a fynnid ganddi i'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

6.7 Roedd gweinyddwyr y system wedi derbyn hyfforddiant o ran defnyddio cyfleuster adrodd y gronfa ddata gyfunol. Derbyniai'r Awdurdod gefnogaeth ychwanegol y cyflenwr meddalwedd i gynhyrchu adroddiadau a dadansoddiadau rheoli a pherfformiad, yn ôl y gofyn.

6.8 Gwnaed copïau wrth gefn dyddiol, wythnosol a misol o'r gronfa ddata gan y Tîm Systemau Gwybodaeth corfforaethol, a'u cadw dan glo mewn cyfleusterau cadw a allai wrthsefyll tân, mewn lleoliadau ar wahân.

Argymhellion

6.9 Dylai'r Awdurdod:

(i) Adolygu ei weithdrefn ar gyfer cynnal a chadw a chalibro offer i sicrhau ei bod yn cynnwys manylion am yr amlder a'r dull o gynnal gwiriadau mewnol. [Y Safon – 6.2]

(ii) Cofnodi gwybodaeth berthnasol o ran calibro a gwiriadau a wnaed ar offer. [Y Safon – 6.3]

(iii) Sicrhau y gweithredir y system feddalwedd gyfrifiadurol yn y fath fodd ei bod yn gallu cynnig y wybodaeth ofynnol i'r Asiantaeth. [Y Safon – 6.4]

7 Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Hylendid Bwyd

7.1 Nododd Cynllun Gwasanaeth Cyfraith Fwyd yr Awdurdod ar gyfer 2004 - 2005 bod 1828 o fusnesau bwyd yn ei ardal yn destun arolygiadau hylendid bwyd. Fodd bynnag, ymddangosai mai 1784 oedd y cyfanswm mewn man arall yn y Cynllun Gwasanaeth hwn. Roedd proffil graddio'r risg fel a ganlyn:

Categori Risg	Nifer y safleoedd	Prif Arolygiadau sy'n ofynnol gan yr adran erbyn 31/03/2005
A	**9**	**9**
B	**159**	**159**
C	**924**	**607**
D	**292**	**206**
E	**248**	**0**
F	**91**	**0**
Safleoedd newydd / safleoedd heb asesiad risg	**28**	**28**
Gwarchodwyr plant	**77**	
Cyfansymiau	**1828**	**1009**

7.2 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer arolygiadau hylendid bwyd nad oedd wedi'u hadolygu ers mis Ionawr 1999. Ceisiai'r weithdrefn sicrhau cynhyrchu, cludo, storio ac adwerthu bwyd yn ddiogel ac atal lledaeniad haint a gludir gan fwyd. Nodai y byddai arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal yn ôl yr amlder a bennwyd gan y cynllun graddio risg a nodwyd yng Nghod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.3 Nodai'r Cynllun Gwasanaeth bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi dyrannu cyllid ychwanegol a bod hyn wedi galluogi Awdurdod i glirio tagfa o arolygiadau a oedd yn hwyr ar gyfer safleoedd yng nghategorïau risg A-C. Fodd bynnag, datgelodd adroddiad a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad bod arolygiadau hylendid bwyd ar 157 o fusnesau bwyd yn hwyr, 40 o'r rhain yng nghategorïau risg A-C.

7.4 Cadarnhaodd archwiliad o 17 hanes o archwilio busnesau bwyd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn cyn yr archwiliad bod pob un o'r 10 safle cyffredinol, a phob un o'r 7 Safle Cymeradwy, wedi cael eu harolygu yn ôl yr amlder cywir.

7.5 Roedd y weithdrefn arolygu hylendid bwyd ddogfenedig yn cynnwys rhestr wirio arolygu hylendid bwyd a chyfres o lythyrau safonol, ond nid oedd, yn benodol, yn cynnwys arolygu'r safleoedd a oedd yn destun rheoliadau hylendid sy'n benodol i gynnyrch. Fodd bynnag, roedd ffurflenni safonol ar gyfer arolygu'r ganolfan puro cregyn gleision a

safleoedd sy'n destun rheoliadau hylendid cynhyrchion llaeth, a ffurflen hunanasesu dadansoddi perygl i fusnesau bwyd.

7.6 Gadewid crynodeb o adroddiad arolygu safonol am hylendid bwyd gyda'r perchennog ar ddiwedd arolygiad. Roedd y ffurflenni hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn unol â Chod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.7 Roedd gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer archwilio a thrwyddedu siopau cigyddion. Defnyddid nifer o ffurflenni safonol a oedd yn cynnwys holl agweddau ymgeisio, arolygu, asesu a phenderfynu'r cais. Roedd yr Awdurdod wedi cyflwyno 30 o drwyddedau siopau cigyddion.

7.8 Datgelodd archwiliad o 10 o ffeiliau a oedd yn gysylltiedig â siopau cigyddion trwyddedig bod y cofnodion yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda iawn. Roedd swyddogion wedi llenwi ffurflenni arolygu ac asesu yn ofalus, ac roedd y cofnodion o safon uchel tros ben.

7.9 Yn gyffredinol, roedd swyddogion wedi cynnal arolygiadau hylendid bwyd yn unol â lefelau eu hawdurdod, er nad oedd lefel awdurdod un swyddog yn cydweddu â'i gymwysterau.

7.10 Roedd nodiadau arolygu a gwybodaeth arolygu arall, a gofnodwyd gan swyddogion adeg yr arolygiad, yn ddealladwy ac yn adferadwy.

Argymhellion

7.11 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau hylendid bwyd yn ôl yr amlder a bennwyd gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Sefydlu a gweithredu gweithdrefnau arolygu dogfenedig ar gyfer Safleoedd Cymeradwy, a sicrhau y cynhelir yr holl weithdrefnau arolygu dogfenedig. [Y Safon - 7.4]

Safonau Bwyd

7.12 Nododd Cynllun Gwasanaeth 2004 – 2005 mewn un tabl bod 1703 o fusnesau bwyd yn ardal yr Awdurdod yn destun arolygiadau safonau bwyd, er y nodai tabl arall mai'r cyfanswm oedd 1474. Roedd proffil graddio'r risg a'r rhaglen arolygu fel a ganlyn:

Categori Risg	**Nifer y safleoedd**	**Arolygiadau Cynradd sy'n ofynnol erbyn 31/03/2004**
Uchel	**44**	**44**
Canolig	**510**	**255**
Isel		**40**
Heb eu graddio	**10**	**10**
Cyfansymiau	**1474**	**349**

7.13 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu gweithdrefn ddogfenedig ac wedi llunio ffurflen arolygu i'w defnyddio gan swyddogion wrth gynnal arolygiadau safonau bwyd. Gadewid copi o adroddiad yr arolygiad safonau bwyd gyda'r perchennog ar ddiwedd arolygiad. Roedd y ffurflenni hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.14 Nododd Cynllun Gwasanaeth 2003-2004 nad oedd rhyw 1000 o safleoedd yn ardal yr Awdurdod, ym mis Ionawr 2001, wedi cael eu harolygu o ran safonau bwyd, ac erbyn Mawrth 2003 bod y rhain wedi'u gostwng i ryw 200 o safleoedd. Fodd bynnag, datgelodd adroddiad a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad bod arolygiadau safonau bwyd ar 363 o fusnesau bwyd yn hwyr, 22 ohonynt wedi'u graddio yn y categori risg uchel a 153 ohonynt yn y categori risg canolig.

7.15 Nid oedd arolygiadau safonau bwyd ar gyfer rhai gweithgynhyrchwyr a busnesau eraill, yr oedd yr Awdurdod yn ymddwyn fel Awdurdod Cartref neu Gychwynnol ar eu cyfer, wedi eu cynnal ar sail risg, gan olygu nad oedd yr Awdurdod yn gallu ymateb i gyfeiriadau Awdurdod Cartref oddi wrth awdurdodau eraill.

7.16 Nid oedd yr Awdurdod wedi bod yn cynnal arolygiadau safonau bwyd yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol o dan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd

7.17 Dangosai hanes arolygiadau safonau bwyd ar gyfer 6 o fusnesau bwyd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn cyn yr archwiliad, y cynhaliwyd yr arolygiadau diweddar yn ôl yr amlder gofynnol. Er hynny, yn aml roedd

cofnodion hanesyddol yn anghyflawn ac, felly, nid oedd yn bosibl pennu cwmpas rhai o'r arolygiadau a gynhaliwyd.

7.18 Er hynny, roedd nodiadau arolygu a gwybodaeth arolygu arall a gofnodwyd gan swyddogion adeg yr arolygiad, yn gyffredinol, yn ddealladwy ac yn adferadwy, ar wahân i enw'r swyddog arolygol, a oedd yn annarllenadwy mewn nifer o achosion.

Argymhelliad

7.19 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y cynhelir arolygiadau safonau bwyd yn ôl yr amlder a bennwyd gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 7.1]

Bwydydd Anifeiliaid

7.20 Nodai Cynllun Gwasanaeth 2004 - 2005 bod yr Awdurdod yn bwriadu cynnal un ymweliad y flwyddyn i bob safle a gofrestrwyd o dan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1998. Roedd 22 o safleoedd cofrestredig.

7.21 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu gweithdrefn ddogfenedig o arolygu bwydydd anifeiliaid. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth o raglen arolygu weithredol ar gyfer safleoedd bwydydd anifeiliaid.

7.22 Nid oedd yr Awdurdod yn mynd i'r afael â'i gyfrifoldebau o ran gorfodaeth mewn perthynas â bwydydd anifeiliaid.

Argymhelliad

7.23 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y cynhelir arolygiadau o safleoedd bwydydd anifeiliaid yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau, ac yn unol ag arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon - 7.1]

8 Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd

8.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu polisi dogfenedig o ran cwynion am fwyd, bwydydd anifeiliaid a safleoedd bwyd, a gweithdrefn o ran cwynion am fwyd. Nid oedd unrhyw weithdrefn ddogfenedig a oedd yn gymwys i gwynion am fwydydd anifeiliaid.

8.2 Archwiliwyd cofnodion 11 o gwynion am hylendid bwyd a 7 o gwynion am safonau bwyd. Cam-adroddwyd dwy gwyn fel cwynion am hylendid bwyd.

8.3 Yn gyffredinol, dangosodd cofnodion o'r cwynion am safonau bwyd y cynhaliwyd yr archwiliadau priodol, y cymerwyd camau o fewn amserlen berthnasol, ac y cysylltwyd ag Awdurdodau Cartref pan oedd yn briodol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid oedd unrhyw dystiolaeth y rhoddwyd gwybod i achwynwyr am ganlyniad yr archwiliad.

8.4 Yn gyffredinol, roedd cofnodion cwynion am hylendid bwyd yn ddigon i bennu y cynhaliwyd archwiliad priodol yn unol â gweithdrefn ddogfenedig yr Awdurdod, y polisi gorfodi, a'r amserlen berthnasol. Fodd bynnag, mewn un achos nid oedd unrhyw dystiolaeth y rhoddwyd gwybod i'r achwynydd am y canlyniad ar ddiwedd ar archwiliad.

8.5 Nid oedd unrhyw gofnod bod yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw gwynion yn ddiweddar ynglyn â bwydydd anifeiliaid.

Argymhelliad

8.6 Dylai'r Awdurdod:

Sefydlu a chynnal gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymdrin â chwynion am fwydydd anifeiliaid a sicrhau bod gweithdrefnau dogfenedig yn cael eu gweithredu'n llawn. [Y Safon – 8.1]

9 Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Er nad oedd yr Awdurdod wedi mabwysiadu'r egwyddor yn ffurfiol, nodai Cynllun Gwasanaeth Gorfodaeth Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid bod yr Awdurdod "wedi ymrwymo i gydymffurfio ag Egwyddor Awdurdod Cartref LACORS" ac y byddai'n "ceisio sefydlu trefniadau ffurfiol Awdurdod Cartref gyda'r holl fusnesau perthnasol".

9.2 Cadarnhaodd gweithdrefnau dogfenedig bod cysylltu ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol yn rhan annatod o ymagwedd gorfodaeth yr Awdurdod.

9.3 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu un cytundeb Awdurdod Cartref ffurfiol, er bod y busnes cysylltiedig wedi peidio â masnachu yn ddiweddar. Nodai'r Cynllun Gwasanaeth bod yr Awdurdod yn gweithredu fel Awdurdod Cartref i 4 busnes bwyd, ac yn Awdurdod Gwreiddiol i 7 arall. Roedd yr Awdurdod hefyd wedi cynghori Heddlu Gogledd Cymru ar faterion bwyd.

9.4 Dangosodd adroddiadau a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad bod yr Awdurdod yn gweithredu fel Awdurdod Cartref i 3 o fusnesau ar faterion hylendid bwyd, ac i 4 o fusnesau ar faterion safonau bwyd.

9.5 Nid oedd cronfa ddata ar-lein Awdurdodau Cartref LACORS yn cynnwys unrhyw gofnodion ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Roedd gan swyddogion fynediad at y Rhyngrwyd a gallent ddefnyddio'r gronfa ddata i nodi Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol ar gyfer busnesau y tu allan i ardal yr Awdurdod, a chysylltiadau perthnasol mewn awdurdodau lleol eraill.

9.6 Dangosai cofnodion bod yr Awdurdod i'w weld yn gweithredu Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn effeithiol o ran materion hylendid bwyd, ac yn ymateb yn briodol i geisiadau am wybodaeth gan awdurdodau eraill.

9.7 Fodd bynnag, o ran materion safonau bwyd nodwyd, o'r 4 o weithgynhyrchwyr bwyd y datganodd yr Awdurdod ei fod yn gweithredu fel Awdurdod Cartref ar eu cyfer, nad oedd 2 ohonynt wedi cael eu harolygu ers 1999, ac yr ymddangosai nad oedd 2 ohonynt wedi cael eu harolygu erioed.

9.8 Nodwyd hefyd yr ymddangosai bod cyfeiriad Awdurdod Cartref oddi wrth awdurdod lleol arall, a oedd yn ymwneud â sampl safonau bwyd anfoddhaol, heb ei weithredu.

9.9 Bychan iawn oedd gweithgarwch samplo safonau bwyd mewn busnesau yr oedd yr Awdurdod yn ymddwyn fel yr Awdurdod Cartref ar eu cyfer.

Argymhelliad

9.10 Dylai'r Awdurdod:

Ddarparu cyngor ar faterion safonau bwyd i fusnesau ynglyn â chydymffurfiaeth gyfreithiol lle maent yn gweithredu fel Awdurdod Cartref a/neu Wreiddiol.
[Y Safon – 9.1]

10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Roedd yr Awdurdod yn weithgar wrth helpu busnesau lleol i gydymffurfio â'r gyfraith o ran bod nifer o gynlluniau wedi'u gweithredu neu wrthi'n cael eu gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Nodiadau arweiniol cynhwysfawr ar hylendid bwyd, a ganolbwyntiai ar sectorau busnesau bwyd lleol penodol;
- Ystod eang o nodiadau gwybodaeth i fasnachwyr nad ydynt yn gweithgynhyrchu, ynghylch labelu bwyd, materion yn ymwneud â chyfansoddiad bwyd a materion safonau marchnata;
- Anfon pecynnau gwybodaeth ac arweiniad HACCP i'r holl fusnesau ac eithrio gofalwyr plant a fferyllwyr;
- Rhoi cyngor ac arweiniad i fusnesau newydd;
- Cyfrannu'n barhaus i ddatblygu a gwella'r diwydiant cregyn gleision lleol.

10.2 Roedd tystiolaeth y rhoddid cyngor yn rheolaidd, o wneud cais amdano ac yn ystod yr arolygiadau.

10.3 Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi sefydlu a gweithredu gweithdrefn ymateb cwsmeriaid ar gyfer arolygiadau hylendid bwyd, a fyddai'n helpu llywio ei broses cynllunio gwasanaeth hylendid bwyd, ac yn helpu i ffurfio, canolbwyntio a gwella ei wasanaeth yn y dyfodol.

11 Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

11.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu system electronig ar gyfer rheoli data a gwybodaeth i Adran Diogelu'r Cyhoedd, a oedd yn cadw manylion am safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal.

11.2 Nodai gweithdrefn ddogfenedig y gofynion ar gyfer creu a diwygio cofnodion safleoedd ar y gronfa ddata. Cofnodid ceisiadau ar ffurflen safonol a'u trosglwyddo i Reolwr y Swyddfa er mwyn gweithredu.

11.3 Hefyd, roedd cyfres o Nodiadau Mewnbwn Diogelwch Bwyd, a ddyluniwyd i sicrhau bod codau priodol yn cael eu cofnodi ar y gronfa ddata i gofnodi gweithgareddau gorfodi hylendid bwyd.

11.4 Gan Weinyddwr y System oedd y cyfrifoldeb am greu cyfrifon defnyddwyr a chyfrineiriau i'r gronfa ddata, a gosod lefelau diogelwch defnyddwyr.

11.5 Gwnaed cais am nifer o adroddiadau'r gronfa ddata yn ystod yr archwiliad er mwyn gwirio gweithrediad y gronfa ddata a chywirdeb y data. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys arolygiadau hwyr ar hylendid bwyd, arolygiadau hwyr ar safonau bwyd, achosion o glefydau heintus ac achosion achlysurol, a rhan o ffurflen fonitro chwarterol yr Awdurdod i'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

11.6 Cododd yr adroddiadau hyn nifer o bryderon ynglyn â gweithrediad y gronfa ddata a chywirdeb y wybodaeth a gofnodwyd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyfnodau rhwng arolygiadau safonau bwyd nad oeddent yn cydweddu â'r rheiny yng Nghod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd;
- Cyfnodau rhwng arolygiadau hylendid bwyd nad oeddent yn cydweddu â'r rheiny yng Nghod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd;
- Yr arolygiadau safonau bwyd a hylendid bwyd nesaf wedi'u dyddio i'w cynnal cyn dyddiadau'r arolygiadau diwethaf;
- Cofnodion safleoedd safonau bwyd a hylendid bwyd â gradd risg, ond heb ddyddiad yr arolygiad diwethaf a/neu nesaf;
- Ailymweliadau safonau bwyd a hylendid bwyd heb eu cofnodi;

- Cofnodion o gwynion am fwyd a chlefydau heintus â'r cod anghywir arnynt;

- Anghysondebau o ran y data ar ffurflen fonitro chwarterol yr ASB.

11.7 Yn ystod yr archwiliad, datgelwyd bod nifer o ddyddiadau'r arolygiadau hylendid bwyd nesaf a oedd wedi cael eu cyfrifo yn awtomatig gan y gronfa ddata, wedi hynny, wedi cael eu newid â llaw. Tra y cydnabyddir y gweithredwyd y weithdrefn hon i oresgyn anawsterau o ran safleoedd tymhorol, er hynny, arweiniodd at asesiadau anghyflawn ynghylch nifer yr arolygiadau a oedd yn hwyr ar unrhyw adeg benodol.

11.8 Dewiswyd deuddeg o safleoedd bwyd o ardal yr Awdurdod ar hap o'r cyfeiriadur busnes lleol. O'r rhain, cofnodwyd un ar ddeg ohonynt ar y gronfa ddata a'u cynnwys yn y rhaglen arolygu berthnasol.

Argymhellion

11.9 Dylai'r Awdurdod:

(i) Gynnal y gronfa ddata o safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal. [Y Safon – 11.1]

(ii) Cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r gronfa ddata i nodi diffygion o ran ei weithredu a chywirdeb y data, a chymryd camau cywirol. [Y Safon – 11.2]

12 Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

12.1 Rhestrai “Datganiad Polisi Gorfodaeth Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach” a “Polisi Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd” yr Awdurdod bod cadw, atafaelu a chamau anffurfiol yn ddewisiadau gorfodi y gellid eu defnyddio gan Swyddogion Awdurdodedig mewn amgylchiadau priodol.

12.2 Cynhaliwyd samplo hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol â gweithdrefnau'r Awdurdod. Roedd cofnodion ffeil wedi'u cadw'n dda a chymerwyd camau dilynol priodol.

12.3 Roedd gan yr Awdurdod Gynllun Samplo Bwyd Blynyddol a Rhaglen Samplo 5 mlynedd ar gyfer safonau bwyd. Nid oedd unrhyw gynllun neu raglen samplo ar gyfer bwydydd anifeiliaid. Nodai Cynllun Gwasanaeth 2003 - 2004 y byddai'r Awdurdod yn cymryd 10 sampl o fwydydd anifeiliaid yn ystod y flwyddyn, er y gostyngwyd hyn i 5 sampl yng Nghynllun Gwasanaeth 2004 - 2005.

12.4 Roedd tystiolaeth bod ystod o weithgarwch samplo wedi'i dargedu at amrywiaeth o nwyddau a gynhyrchid ac a weithgynhyrchid yn lleol, a chyfranogiad actif mewn arolygiadau rhanbarthol a chenedlaethol a gyd-drefnwyd. Nodwyd na chymerwyd rhai samplau safonau bwyd yn unol â'r rhaglen 5 mlynedd. Y rheswm am hyn oedd bod y rhaglen yn canolbwyntio ar gyfansoddiad cynnyrch cig, a oedd yn cael ei effeithio gan newidiadau deddfwriaethol sylweddol yn ystod y flwyddyn.

12.5 Rhestrai adroddiad, a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod fel rhan o ddogfennaeth cyn archwilio, gyfanswm o 242 o samplau diogelwch bwyd a 124 o samplau safonau bwyd a gymerwyd yn y chwe mis cyn yr archwiliad.

12.6 Roedd labordai a ddefnyddid gan yr Awdurdod i archwilio a dadansoddi samplau bwyd a bwydydd anifeiliaid wedi'u hachredu'n briodol, ac roeddent ar restr y Labordai Swyddogol yr oedd Llywodraeth y DU wedi rhoi gwybod amdanynt i'r Comisiwn Ewropeaidd.

12.7 Roedd yr Awdurdod wedi diweddaru ei benodiadau Dadansoddwr Amaethyddol a Dirprwy ym mis Mawrth 2004. Fodd bynnag, dywedodd yr Awdurdod ei fod wedi penodi cwmni yn Ddadansoddwr Cyhoeddus iddo yn hytrach nag unigolyn â chanddo'r cymwysterau priodol.

Hylendid Bwyd

12.8 Nodai'r Cynllun Gwasanaeth y meini prawf a fyddai'n cael eu defnyddio i ddyfeisio'r rhaglen flynyddol ar gyfer samplo diogelwch bwyd. Roedd y rhain yn cynnwys lle'r oedd dyletswydd statudol i samplo, ymarferion LACORS, anghenion lleol, a'r arolwg o fasgedi siopa ledled Cymru. Byddai samplau'n cael eu cymryd o:

- Fusnesau a gymeradwywyd o dan Reoliadau hylendid sy'n benodol i gynnyrch;
- Safleoedd lle nad oedd llawer o "hyder yn y rheolwyr", neu ddim o gwbl;
- Busnesau newydd;
- Busnesau ag arferion gwael o drin bwyd;
- Gwelyau cregyn gleision lleol.

12.9 Cynllun yr Awdurdod oedd cymryd 492 o samplau hylendid bwyd yn ystod 2004 -2005. Ymddangosai fod nifer y samplau a gymerwyd yn cyrraedd y nod.

12.10 Archwiliwyd cofnodion o ddeg o samplau hylendid bwyd. Cymerwyd yr holl samplau yn unol â'r rhaglen samplo, gan gynnwys cyfranogiad mewn rhaglenni a gyd-drefnwyd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

12.11 Dangosai cofnodion yr ymdriniwyd â samplau hylendid bwyd mewn ffordd gynhwysfawr, ac roedd cofnodion wedi'u cadw'n eithriadol o dda. Anfonwyd llythyrau dilynol at fusnesau ym mhob achos, a dilynwyd canlyniadau anfoddhaol â chyngor priodol, arolygiadau ychwanegol, a mwy o samplo.

12.12 Roedd rhaglen samplo gynhwysfawr yn gysylltiedig â'r gwelyau cregyn gleision a'r diwydiant cynaeafu cregyn gleision lleol, gan gynnwys samplo ansawdd y dwr a samplo arall, er mwyn gallu dosbarthu.

Safonau Bwyd

12.13 Nodai'r Cynllun Gwasanaeth sylfaen rhaglen samplo safonau bwyd arfaethedig yr Awdurdod ar gyfer 2004 - 2005. Golygai'r rhaglen gymryd cyfanswm o 275 sampl y flwyddyn, ar sail fformiwla o 2.5 sampl am bob 100 o'r boblogaeth, a gynhwysai gymysgedd o fwyd a

gynhyrchwyd yn lleol ac a samplwyd yn unol ag asesiad risg, a bwydydd eraill sydd i'w cyfrif am y gweddill.

12.14 Roedd nifer y samplau a gymerwyd yn cyrraedd y nod.

12.15 Archwiliwyd cofnodion o ddeg o samplau safonau bwyd o safleoedd adwerthu ac arlwyo, y cymerwyd dwy ohonynt fel samplau ffurfiol. Dangosai cofnodion yr ymdriniwyd â samplau safonau bwyd yn briodol, a bod y cofnodion wedi'u cadw'n dda. Anfonwyd llythyrau dilynol at fusnesau ymhob achos, ac aethpwyd i'r afael â chanlyniadau anfoddhaol.

12.16 Nid oedd unrhyw dystiolaeth o weithgarwch samplo yn y safleoedd gweithgynhyrchu mawr y dywedwyd wrth yr archwilwyr eu bod yn dod o fewn cwmpas Egwyddor yr Awdurdod Cartref.

Argymhellion

12.17 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i natur yr holl sefydliadau bwyd yn yr ardal wrth sefydlu, cynnal a gweithredu ei raglen samplo safonau bwyd. [Y Safon – 12.3]

(ii) Adolygu a diweddaru penodiad y Dadansoddwr Cyhoeddus, gan gymryd i ystyriaeth holl ofynion cyfreithiol perthnasol Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a Chodau Ymarfer cysylltiedig. [Y Safon – 12.7]

Bwydydd Anifeiliaid

12.18 Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod yr Awdurdod wedi cymryd unrhyw samplau bwydydd anifeiliaid yn ystod 2003-2004.

Argymhelliad

12.19 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y caiff bwydydd anifeiliaid eu samplo yn unol â rhaglen samplo bwydydd anifeiliaid yr Awdurdod, fel a fanylwyd yn y Cynllun Gwasanaeth. [Y Safon – 12.5]

13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd

13.1 Ar y cyd, roedd yr Awdurdod a rhanddeiliaid eraill wedi sefydlu gweithdrefn ddogfenedig o'r enw "Trefniadau ar gyfer Rheoli Achos o Salwch a Gludir gan Fwyd" (yr OCP).

13.2 Nodai'r OCP y byddai'n cael ei adolygu'n "ddwyflynyddol", er bod y copi a ddarparwyd gyda'r ddogfennaeth cyn-archwilio heb ei ddyddio ac yn cynnwys gwybodaeth a oedd wedi dyddio ers meitin. Roedd angen adolygu a diweddaru'r ddogfen.

13.3 Dywedodd yr Awdurdod y cafwyd 46 achos o heintiad a oedd yn gysylltiedig â bwyd yn yr ardal yn y 2 flynedd cyn yr archwiliad. Bu cyfran fawr yn achosion o gastro-enteritis a achoswyd gan feirws mewn gwestai a chartrefi preswyl, heb unrhyw gysylltiad amlwg â bwyd.

13.4 Roedd yr Awdurdod wedi cyhoeddi arweiniad cynhwysfawr ar atal y fath achosion mewn gwestai yn yr ardal yn 2002, a sut i ymdrin â nhw. Roedd tystiolaeth o gydweithio agos rhwng gwestywyr a'r Awdurdod, ac o ganlyniad roedd cyfanswm yr holl achosion wedi cwympo i 8 yn 2003 - 2004.

13.5 O blith gweddill yr achosion a gofnodwyd yn ystod y cyfnod o 2 flynedd, ymddangosai bod nifer ohonynt wedi eu cam-godio ar y gronfa ddata, ac ni ymddangosai mai achosion o salwch oeddynt.

13.6 Yn gyffredinol, ni chynullwyd timau rheoli achosion, ac ni ddogfennwyd rhesymau, er bod tystiolaeth serch hynny o gydweithio agos rhwng pawb a fu'n ymwneud â rheoli'r fath achosion. Nid oedd yn eglur mewn rhai achosion a ddatganwyd achos, neu a ddilynwyd gweithdrefnau priodol yn yr OCP.

13.7 Archwiliwyd dwy ffeil a oedd yn gysylltiedig ag achosion o wenwyn bwyd. Ymchwiliwyd y ddau achos mewn ffordd gymwys a chynhwysfawr, cynhaliwyd ymchwiliadau priodol a chymerwyd samplau.

13.8 Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi sefydlu gweithdrefn ddogfenedig ar wahân i 'Archwilio a Rheoli Achosion o Wenwyn Bwyd', dyddiedig Ionawr 1999, a ymdriniai ag achosion achlysurol o wenwyn bwyd, a 'Protocol ar gyfer Ymdrin ag Achosion o Gastro-enteritis Firaol'.

13.9 Archwiliwyd deg ymchwiliad o rybuddion am achosion achlysurol, yr oedd pob un ohonynt wedi derbyn ymateb cychwynnol o fewn amser priodol, fel a fanylwyd yn y weithdrefn ddogfenedig. Fodd bynnag, er yr ymddangosai fod ymchwiliadau trylwyr wedi'u cynnal ym mwyafrif yr

achosion, roedd diffyg manylion mewn rhai cofnodion am nad oedd ffurflenni ymchwilio wedi cael eu llenwi'n gyfan gwbl. Yn draddodiadol, cedwid cofnodion am gyfnod o 5 mlynedd. Yn ddiweddar, diwygiwyd hyn i 6 blynedd.

Argymhellion

13.10 Dylai'r Awdurdod:

(i) Os yw'n ofynnol, sicrhau y caiff ei weithdrefnau dogfenedig eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, ar y cyd â rhanddeiliaid eraill. [Y Safon – 13.1]

(ii) Sicrhau y gweithredir ei weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymdrin ag achosion achlysurol o heintiad sy'n gysylltiedig â bwyd, yn llawn gan swyddogion wrth gynnal ymchwiliadau, ac y cedwir cofnodion priodol. [Y Safon – 13.2]

14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd gan yr Awdurdod 'Gweithdrefn Rhybudd Perygl Bwyd a Digwyddiadau Diogelwch Bwyd' ddogfenedig, dyddiedig Awst 2002, a nodai drefniadau'r Adran Diogelwch Bwyd ar gyfer ymateb i Rybuddion Perygl Bwyd (RhPB) a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ac ar gyfer rhoi gwybod i'r ASB am ddigwyddiadau bwyd perthnasol a nodwyd o fewn ardal yr Awdurdod.

14.2 Ni ddynodai'r weithdrefn sut y byddai'r Awdurdod yn sicrhau ymateb amserol i ddigwyddiadau a ddigwyddai y tu allan i oriau gwaith arferol yr Adran, na sut y byddai rheolwyr perthnasol yn yr Adrannau Safonau Bwyd a Masnach yn cydgysylltu i bennu ymateb priodol i RhPB.

14.3 Nid oedd unrhyw weithdrefn ddogfenedig gyfwerth a oedd yn gymwys i'r Adran Safonau Masnach.

14.4 Roedd gan yr Awdurdod system gyfrifiadurol a oedd yn gallu derbyn RhPBau, a chadarnhaodd y weithdrefn ddogfenedig bod RhPBau yn cael eu derbyn oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd trwy'r dull hwn.

14.5 Dangosodd archwiliad o gofnodion yr Awdurdod o RhPBau a gyhoeddwyd yn ystod y 18 mis cyn yr archwiliad bod pob un wedi'u derbyn a'u gweithredu'n briodol yn unol â chyngor yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Dogfennwyd ymatebion a chanlyniadau, a chyhoeddwyd cyhoeddusrwydd lleol mewn achosion priodol.

Argymhellion

14.6 Dylai'r Awdurdod:

(i) Ddogfennu trefniadau'r Adran Safonau Masnach ar gyfer ymdrin â RhPBau ac ar gyfer rhoi gwybod i'r ASB am ddigwyddiadau bwyd perthnasol a ddigwydd o fewn ardal yr Awdurdod. [Y Safon – 14.1]

(ii) Sicrhau bod ei weithdrefnau dogfenedig ar gyfer ymateb i RhPBau a dderbynnid oddi wrth ASB yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cysylltu priodol rhwng rheolwyr perthnasol, ac ar gyfer sicrhau bod RhPBau a dderbynnid y tu allan i oriau gwaith arferol yn cael ymateb priodol ac amserol. [Y Safon - 14.1]

15 Gorfodaeth

15.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu Polisi Gorfodi dogfenedig i Adran Gwarchod y Cyhoedd yn seiliedig ar egwyddorion arweiniol cysondeb, tegwch, cymesuredd, tryloywedd a gwrthrychedd, yn unol â'r Concordat Gorfodi. Mabwysiadodd Pwyllgor Polisi ac Adnoddau'r Awdurdod y Concordat Gorfodi ar 5 Mai 1998.

15.2 Mabwysiadodd Pwyllgor Gwarchod y Cyhoedd y Polisi Gorfodi Diogelwch y Cyhoedd ar 27 Medi 1999.

15.3 Roedd Pwyllgor Diogelwch a Rheoleiddio Cymunedol yr Awdurdod hefyd wedi cytuno i fabwysiadu Datganiad Polisi Gorfodi Diogelwch a Safonau Bwyd ym mis Mehefin 2002. Roedd hwn ar gael i'r cyhoedd a busnesau yn yr ardal ar ffurf llyfryn o'r swyddfeydd dinesig.

15.4 Hefyd, roedd Polisi Gorfodi Diogelwch Bwyd, dogfen ddyddiedig Ionawr 2000, nad oedd yn ymddangos ei bod wedi'i mabwysiadu gan fforwm yr Aelod Awdurdod Lleol perthnasol. Ymddangosai fod gan Adran Gwarchod y Cyhoedd 3 Polisi Gorfodi gwahanol a oedd hefyd, mewn mannau, yn gwrth-ddweud ei gilydd.

Hylendid Bwyd

15.5 Mewn dogfennaeth cyn-archwilio, adroddodd yr Awdurdod ei fod wedi cynnal y camau gorfodi canlynol o ran materion hylendid bwyd yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad:

- 2 Erlyniad;
- 2 rybudd ffurfiol;
- 2 Rybudd Gwahardd Brys;
- 6 achos o gau safle bwyd yn wirfoddol;
- 23 Rhybudd Gwella;
- 2 achos o atafaelu bwyd;
- 4 achos o ildio bwyd yn wirfoddol.

15.6 Archwiliwyd cofnodion 2 erlyniad hylendid bwyd, 2 rybudd ffurfiol, 2 Rybudd Gwahardd Brys, 5 achos o gau yn wirfoddol, 10 Rhybudd Gwella, 2 achos o atafaelu bwyd, a 3 achos o ildio bwyd yn wirfoddol, a'u gwirio yn erbyn yr arweiniad swyddogol, dogfennau polisi gorfodi'r Awdurdod, a gweithdrefnau dogfenedig eraill yr Awdurdod.

15.7 Roedd yn amlwg bod ystod eang o ddewisiadau gorfodi hylendid bwyd wedi cael eu defnyddio'n rheolaidd yn yr Awdurdod.

15.8 Nid oedd gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer paratoi achosion hylendid bwyd ar gyfer rhybuddion ffurfiol neu erlyniadau, ac nid oedd fawr o

gysondeb yn y ddogfennaeth ar ffeil. Nid oedd chwaith unrhyw dystiolaeth ddogfennol bod gofynion y Ddeddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol wedi cael eu hystyried.

15.9 Roedd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Perfformiad (CCP) a'r Prif Swyddog Cyfreithiol bwer dirprwyedig cyffredinol i ddwyn achosion cyfreithiol ar ran yr Awdurdod ond, mewn un achos, nid oedd yn amlwg o'r ddogfennaeth ar ffeil a oedd y CCP wedi awdurdodi'r erlyniad.

15.10 Nid oedd unrhyw dystiolaeth ar ffeil y rhoddwyd ystyriaeth i'r Polisi Gorfodaeth yn y naill o'r ddau rybudd ffurfiol a archwiliwyd nac yn un o'r erlyniadau hylendid bwyd.

15.11 Ymgymerwyd ag erlyniadau a rhybuddion ffurfiol heb unrhyw oedi gormodol, ac o dan y ddeddfwriaeth gywir, er nad oedd yn ymddangos bod unrhyw bwer dirprwyedig o dan Gyfansoddiad yr Awdurdod i swyddogion gyhoeddi Rhybuddion Ffurfiol o ran materion hylendid bwyd.

15.12 Roedd Uwch Swyddogion Diogelwch Bwyd wedi llofnodi'r rhybuddion ffurfiol.

15.13 Cyflwynwyd Rhybuddion Gwahardd Brys mewn amgylchiadau priodol a gwnaed ceisiadau am Orchmynion Gwahardd Brys i'r Llys o fewn y cyfnod statudol. Codwyd gorchmynion yn brydlon, unwaith yr aethpwyd i'r afael â'r materion yr oedd angen ymdrin â nhw, er ei fod yn aneglur o'r ddogfennaeth ar ffeil a fonitrwyd amodau ar y safleoedd tra bu'r gorchmynion mewn grym.

15.14 Cyflwynwyd Rhybuddion Gwella o dan amgylchiadau priodol gan swyddogion a awdurdodwyd yn gywir, er nad oedd y copïau ar ffeil wedi cael eu llofnodi na'u dyddio mewn dau achos. Nid oedd yn bosibl pennu a gymerwyd camau dilynol priodol o ran pump o'r deg rhybudd a wiriwyd.

15.15 Nododd cofnodion pum safle bwyd a oedd wedi cynnig cau'n wirfoddol bod cau yn gam priodol ym mhob achos. Fodd bynnag, nodwyd na chadarnhawyd y cytundebau cau yn ysgrifenedig â pherchnogion y busnesau a oedd yn gysylltiedig â gwirio'r achosion hyn, er y cywirwyd y materion yr oedd angen ymdrin â nhw o fewn cyfnod byr yn y tri achos hyn.

15.16 Yn y ddau achos lle atafaelwyd bwyd yn ffurfiol, dangosodd cofnodion y dilynwyd gweithdrefnau statudol ac y cymerwyd camau o fewn yr amserlen berthnasol.

15.17 Archwiliwyd cofnodion am 3 achos o ildio bwyd yn wirfoddol, a chyhoeddwyd tystysgrifau a eiriwyd yn briodol mewn un achos. Ni chyflwynwyd tystysgrif yn yr ail achos, ac nid oedd unrhyw gofnod o'r modd y gwaredwyd y bwyd yn y trydydd achos.

Safonau Bwyd

15.18 Mewn dogfennaeth cyn-archwilio, adroddodd yr Awdurdod ei fod wedi cymryd y camau gorfodi canlynol o ran materion safonau bwyd yn y 2 flynedd cyn yr archwiliad:

- 1 Erlyniad;
- 1 rhybudd ffurfiol.

15.19 Nid oedd unrhyw weithdrefn ddogfenedig ar gyfer paratoi achosion safonau bwyd ar gyfer rhybuddion ffurfiol neu erlyniadau, er bod y defnydd o ffurflenni safonol yn hwyluso cysondeb. Nid oedd tystiolaeth ddogfennol bod gofynion y Ddeddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol wedi cael eu hystyried.

15.20 Roedd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Perfformiad (CCP) a'r Prif Swyddog Cyfreithiol bwer dirprwyedig cyffredinol i ddwyn achosion cyfreithiol ar ran yr Awdurdod.

15.21 Hefyd, roedd gan y CCP ddirprwyaeth benodol o dan Gynllun Dirprwyaethau Swyddogion o ran erlyniadau a rhybuddion ffurfiol Safonau Masnach (ond nid o ran Iechyd yr Amgylchedd). Caniataodd y Cyfansoddiad i'r CCP 'is-ddirprwyo' ei bwerau i swyddogion eraill yr Awdurdod, a gwnaed hyn i is-ddirprwyo i'r Prif Swyddog Rheoli Amgylcheddol (PSRhA).

15.22 Roedd tystiolaeth ar ffeil y cymerwyd y Polisi Gorfodi i ystyriaeth o ran y rhybudd ffurfiol ynghylch safonau bwyd a'r erlyniad safonau bwyd, yr awdurdodwyd y ddau ohonynt gan y PSRhA heb oedi.

15.23 Roedd Rheolwr Safonau Masnach wedi llofnodi'r rhybudd ffurfiol.

Bwydydd Anifeiliaid

15.24 Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi ffurfiol o ran bwydydd anifeiliaid yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad.

Argymhelliad

15.25 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y gwneir yr holl benderfyniadau am gamau gorfodi ar ôl ystyried ei Bolisi Gorfodi. Dylid dogfennu unrhyw resymau am unrhyw wyriad o'r meini prawf a nodwyd yn y Polisi Gorfodi. [Y Safon – 15.3]

16 Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu

16.1 Cedwid cofnodion am safleoedd lle'r oedd gan yr Awdurdod gyfrifoldeb dros orfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid yn system rheoli data a gwybodaeth gyfrifiadurol Adran Gwarchod y Cyhoedd.

16.2 Cedwid cofnodion arolygiadau a chofnodion eraill mewn ffeiliau copi caled ac ar ffurf crynodeb yn y gronfa ddata adrannol, ac roedd cofnodion am safleoedd a ddefnyddiwyd fel busnesau bwyd neu fwydydd anifeiliaid am o leiaf 6 blynedd wedi'u cadw am y cyfnod hwnnw.

Hylendid Bwyd

16.3 Yn gyffredinol, roedd cofnodion arolygu hylendid bwyd safleoedd a oedd yn destun y rheoliadau hylendid bwyd cyffredinol, gan gynnwys cigyddion trwyddedig, yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda, ac roeddent yn cynnwys copïau o adroddiadau arolygu, ffurflenni cais, trwyddedau a chofrestriadau.

16.4 Roedd cofnodion arolygu diweddar o safleoedd sy'n destun rheoliadau penodol i gynnyrch yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda, a sicrhaodd y defnydd o gymorth cof arolygu y cofnodid gwybodaeth ar ffurf gyson. Nid oedd rhai dogfennau allweddol a oedd yn ymwneud ag arolygiadau cynharach a chymeradwyo gwreiddiol ar ffeil.

16.5 Yn gyffredinol, adlewyrchai gohebiaeth ôl-arolgygu ofynion Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, er bod rhai llythyrau a gyfeiriai at safleoedd a oedd yn destun rheoliadau hylendid penodol i gynnyrch, yn cyfeirio at ddeddfwriaeth amhriodol mewn penawdau. Ar y cyfan, anfonwyd llythyrau ac adroddiadau o fewn cyfnod rhesymol i gynnal yr arolwg.

16.6 Roedd cofnodion a oedd yn ymwneud â samplau diogelwch bwyd ac atafaelu bwyd yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda.

Safonau Bwyd

16.7 Yn gyffredinol, roedd cofnodion hyn a oedd yn berthnasol i arolygiadau safonau bwyd yn annigonol i bennu a gynhaliwyd arolygiadau priodol, er bod cofnodion am arolygiadau diweddarach yn rhoi darlun mwy cyflawn.

16.8 Mewn nifer o achosion a gofnodwyd am fusnesau bwyd nad ydynt yn gweithgynhyrchu, dim ond yn rhannol y llenwyd ffurflenni arolygu

Safonau Bwyd, a olygai bod y wybodaeth, yn gyffredinol, yn annigonol i fodloni gofynion Cod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

16.9 Roedd cofnodion o samplo busnesau bwyd nad ydynt yn gweithgynhyrchu a gweithgynhyrchwyr llai yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda.

Bwydydd Anifeiliaid

16.10 Nid oedd yr Awdurdod wedi cynnal unrhyw arolygiadau na samplo ar safleoedd bwydydd anifeiliaid yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad.

Argymhelliad

16.11 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod cofnodion safonau bwyd a safleoedd bwydydd anifeiliaid yn cynnwys adroddiadau am bob arolygiad ac ymweliad, asesiadau o gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol, asesiadau graddio risg, canlyniadau samplau a manylion am gamau dilynol, manylion am gwynion, camau anffurfiol a ffurfiol, copïau o geisiadau a phenderfyniadau sy'n ymwneud â chofrestru, a chymeradwyo, a chopïau o'r holl dystysgrifau a gohebiaeth.
[Y Safon – 16.1]

17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu cynllun corfforaethol ar gyfer sylwadau a chwynion, sef ‘Cyswllt Conwy’, a alluogai aelodau o’r gymuned a phobl eraill a effeithiwyd gan y gwasanaethau a gynigiwyd gan yr Awdurdod a’r ffordd y’u darparwyd iddynt, leisio eu barn. Roedd y weithdrefn hon ar gael ar ffurf taflen o adeiladau dinesig.

17.2 Ni chafwyd unrhyw gwynion ffurfiol, naill ai yn erbyn Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd na’r Gwasanaeth Safonau Masnach, o ran gorfodi cyfraith fwyd neu fwydydd anifeiliaid yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

18 Cysylltiad â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr Awdurdod drefniadau cysylltu effeithiol ag awdurdodau cyfagos a chyrff priodol eraill, gyda'r nod o hwyluso gorfodaeth a oedd yn gyson. Roedd y rhain yn cynnwys cyfranogiad gweithredol yn y canlynol:

- Grwp Bwyd Gogledd Cymru;
- Panel Ansawdd a Mesureg Gogledd Cymru;
- Grwp Safonau Bwyd ac Amaethyddol dros Gymru.

18.2 Roedd cofnodion cyfarfodydd grwpiau cyswllt ar gael, ac roeddent yn cadarnhau presenoldeb rheolaidd gan gynrychiolwyr gwasanaeth priodol.

18.3 Derbynnid cofnodion grwpiau perthnasol eraill a'u dosbarthu i staff. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru;
- Panel Technegol Diogelwch Bwyd;
- Panel Technegol Clefydau Trosglwyddadwy.

18.4 Hefyd, roedd gan yr Awdurdod drefniadau cydweithio gweithredol â:

- Grwp Datblygu Cregyn Gleision Conwy;
- Menter HACCP yr Asiantaeth Safonau Bwyd;
- Awdurdodau lleol eraill;
- Yr Awdurdod Iechyd a chyrff olynol;
- Colegau lleol a darparwyr hyfforddiant eraill;
- LACORS.

19 Monitro Mewnol

19.1 Nid oedd yr Awdurdod wedi sefydlu unrhyw weithdrefnau monitro mewnol dogfenedig yn unol â Chodau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.

19.2 Roedd yn amlwg bod diffyg monitro effeithiol yn golygu nad oedd rheolwyr gwasanaeth yn ymwybodol o berfformiad, cronfa ddata, a materion eraill a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

19.3 Roedd tystiolaeth bod ychydig o fonitro mewnol meintiol ac ansoddol yn digwydd o ran gorfodi hylendid bwyd. Roedd hyn yn cynnwys:

- Adroddiadau gweithgarwch misol;
- Adborth gan gwsmeriaid;
- Cyfarfodydd Tîm rheolaidd;
- Gwirio ffeiliau a dogfennau;
- Cyfarfodydd adolygu personol misol â phob swyddog;
- Adolygiad o lythyrau a rhybuddion;
- Hyfforddiant mewnol.

19.4 Cynhaliwyd cyfarfodydd Tîm Diogelwch Bwyd yn rheolaidd, a dangosai cofnodion cyfarfodydd bod y trafodaethau yn cynnwys ystod o faterion yn ymwneud â gorfodaeth bwyd, cysondeb a materion perthnasol eraill. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd yn ymddangos bod rhai o aelodau'r tîm wedi mynychu ers meitin.

19.5 Cynhelid cyfarfodydd Tîm Safonau Masnach yn rheolaidd, er mai bach iawn a nodwyd yn y cofnodion o ran trafod materion am orfodaeth bwyd a bwydydd anifeiliaid a chysondeb.

19.6 Roedd gan Adran Gwarchod y Cyhoedd achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl (BMP) ac roedd wedi datblygu system perfformiad ac arfarnu a oedd yn gymwys i'r holl staff a gyflogid yn yr Adran. Nid oedd yr adran Diogelwch Bwyd yn defnyddio'r ffurflenni BMP dynodedig i wneud cais am hyfforddiant, ond roeddent yn cadw cofnodion am arfarnu swyddogion.

19.7 Dangosai tystiolaeth bod y system arfarnu a datblygu BMP yn cael ei weithredu, er nad oedd cofnodion hyfforddi yn ddigonol i ddangos bod yr holl staff perthnasol yn derbyn y 10 awr o hyfforddiant datblygiad parhaus mewn gorfodi bwyd sy'n ofynnol gan Godau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

Argymhellion

19.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol dogfenedig yn unol â Chodau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 19.1]

(ii) Gwirio cydymffurfiad â'r Safon, deddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd, arweiniad perthnasol a gyhoeddwyd yn ganolog, a'i bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig ei hun o ran holl agweddau'r gwasanaeth. [Y Safon - 19.2]

20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd

20.1 Roedd yr Awdurdod wedi cyfranogi yn yr archwiliad rhyng-awdurdod o hylendid bwyd ar draws Cymru ym 1999, ac yn archwiliad rhyng-awdurdod o Ansawdd Bwyd a Safonau Amaethyddol Cymru gyfan yn 2000 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd yng Nghymru.

20.2 Archwiliwyd y gwasanaeth Safonau Masnach a dyfarnwyd marc ansawdd Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol iddynt o ran contract defnyddwyr a chyffredinol, gan gynnwys rhai gweithgareddau a oedd yn ymwneud â bwyd.

21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

21.1 Dangosodd yr Awdurdod ymrwymiad i hyrwyddo hylendid a safonau bwyd.

21.2 Roedd Adran Gwarchod y Cyhoedd wedi cychwyn neu gyfranogi mewn ystod eang o weithgareddau hyrwyddo, ac roedd ganddi gynlluniau am waith pellach yn y maes hwn. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Hyfforddiant ar hylendid bwyd;
- Wythnos diogelwch bwyd;
- Gwobrau hylendid bwyd;
- Hyfforddi rhingyllod cystodaeth;
- Defnyddiwr ifanc y flwyddyn.

21.3 Roedd yr Adran wedi defnyddio gorsaf radio leol i hysbysebu'r gwasanaeth hefyd.

Argymhelliad

21.4 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau ei fod yn ehangu ei weithgareddau hyrwyddo i gynnwys bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 21.1]

Archwilwyr:

Prif Archwilydd:	**Jane Davies**
Archwilwyr:	Rob Wilkins
	Lindsay Horth
	Tony Wheale

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11 Ty Southgate
Stryd Wood
Caerdydd
CF10 1EW

ATODIAD A

Geirfa

Dadansoddwr Amaethyddol	Rhywun, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwydydd anifeiliaid.
Safleoedd cymeradwy	Safle gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol, yng nghyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddir cod adnabod unigryw iddo sy'n berthnasol mewn masnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog cymwys addas a awdurdodir gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth, er enghraifft, orfodi deddfwriaeth.
Gwerth Gorau *	Polisi Llywodraethol â'r nod o wella perfformiad llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau i gymunedau lleol – o addysg a gofal i'r henoed, i iechyd yr amgylchedd a chynnal ffyrdd. Nod Gwerth Gorau yw sicrhau bod lefel cost ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn dderbyniol i bobl leol trwy: • gynyddu rôl pobl leol wrth benderfynu blaenoriaethau gwasanaethau llywodraeth leol • gwella'r ffordd y mae awdurdodau'n rheoli ac yn adolygu eu busnes • adeiladu ar brofiad ac arbenigedd staff. * Yng Nghymru, disodlwyd hyn yn ddiweddar gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella
Arolygfeydd Ffin	Man dyfod i'r DU o wledydd y tu allan i'r UE i gynnyrch sy'n deillio o anifeiliaid.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddir o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch gorfodi deddfwriaeth bwyd.
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (SIA)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
Bwydydd Anifeiliaid	Term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i ddisgrifio cymysgeddau bwyd i anifeiliaid fferm ac anifeiliaid

	anwes.
Archwiliwr Bwyd	Person â'r cymwysterau rhagnodedig sy'n cynnal dadansoddiadau microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Rhybuddion Perygl Bwyd	Mae hwn yn system a weithredir gan Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol o ran diogelwch bwyd.
Hylendid bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys diogelwch ac iachusrwydd bwyd.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: • Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd • Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth • Cynllun Monitro • Cynllun Archwilio Mae'r **Safon** a'r **Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth ynghylch cynllunio a darparu gorfodaeth cyfraith fwyd. Mae'r **Cynllun Monitro** yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni chwarterol i'r Asiantaeth am eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau. O dan y **Cynllun Archwilio** bydd Asiantaeth Safonau Bwyd yn archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn ôl y meini prawf a nodwyd yn y Safon.
Ffigur Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan hwnnw o amser swyddog unigol sydd ar gael ar gyfer swyddogaeth neu gyfres o ddyletswyddau penodol. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion fod yn gweithio'n rhan amser, neu y gall fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodaeth fwyd.

HACCP	Pwynt Rheoli Critigol ar gyfer Dadansoddi Peryglon – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hanfodol i ddiogelwch bwyd y cynhelir y mesur rheoli yn gywir, a thrwy hynny ddileu neu leihau'r perygl i lefel sy'n ddiogel.
Awdurdod Cartref	Awdurdod lle ceir sylfaen benderfynu berthnasol menter, ac sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am gynghori'r busnes hwnnw ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill, o ran polisïau a gweithdrefnau'r cwmni hwnnw sy'n gysylltiedig â bwyd.
Rhybudd Gwella	Rhybudd a gyflwynir gan Swyddog Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog busnes bwyd wneud gwaith addas i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd.
Archwilio Rhyng-Awdurdod	System lle gall awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd a gytunwyd.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod ac yn penderfynu ar wasanaethau gorfodi cyfraith fwyd.
Ffurflenni CSRhB	Ffurflenni am weithgareddau gorfodi cyfraith fwyd lleol y mae'n ofynnol eu dychwelyd i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Swyddogol Rheoli Bwydydd.
Awdurdod Gwreiddiol	Awdurdod y mae busnes, yn ardal yr Awdurdod hwnnw, yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethu ac y mae'r Awdurdod yn gweithredu yn bwynt cyswllt canolog iddo o ran ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill am y cynhyrchion hynny.
Awdurdod Iechyd Porthladd	Awdurdod lleol y ceir, oddi mewn i'w ffiniau, bwynt mynediad i'r DU ar gyfer bwydydd a fewnforir.
Dadansoddwr Cyhoeddus	Swyddog, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i

	ddadansoddi samplau bwyd yn gemegol.
Graddio risg	System sy'n graddio safleoedd bwyd yn ôl y risg ac yn pennu pa mor aml y dylid arolygu'r safleoedd hynny. Er enghraifft, dylid arolygu safleoedd hylendid bwyd uchel eu risg, o leiaf unwaith bob 6 mis.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n nodi ei gynlluniau ynghylch darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Safonau Masnach	Yr Adran o fewn awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Swyddog Safonau Masnach (SSM)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gallu gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle cyfunir yr holl swyddogaethau, er enghraifft Awdurdodau Cymreig a Bwrdeistrefi yn Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

Cynllun Gweithredu ar gyfer: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dyddiad Archwilio: 27 i 30 Ebrill 2004

GWELLIANNAU A GYNLLUNNIR	ERBYN (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD, GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
Bydd cynllun gwasanaeth y flwyddyn nesaf yn nodi'n glir unrhyw Eitemau Cynllun Darparu Gwasanaeth y trefnwyd i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn flaenorol ond na chawsant eu cwblhau mewn gwirionedd, ynghyd â Chynllun Gweithredu ar gyfer yr eitem(au) hwn/hyn. Adolygu	Mehefin 2006 (pan drefnir i'r Cynllun Gwasanaeth gael ei gyflwyno i'w ystyried gan yr Aelodau). Fel uchod	Sicrhau bod y cynllun darparu gwasanaeth yn bodloni'r holl feini prawf a nodwyd yn Arweiniad y Cynllun Gwasanaeth ym Mhennod 1 Y Cytundeb Fframwaith. [Y Safon – 3.1] Ymdrin â'r holl amrywiadau wrth fodloni'r cynllun darparu gwasanaeth yn nhrefniadau gwasanaeth y flwyddyn ganlynol. [Y Safon – 3.3]	Gan MRF/GWJ MRF/GWJ
Cyflwyno system rheoli dogfennau, a fydd yn nodi'r holl bolisïau, gweithdrefnau, ffurflenni, llythyrau ac ati. Caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau eu hadolygu erbyn 31/03/06, ac o leiaf adolygiad blynyddol ar ddyddiadau a drefnir wedi hynny	31/03/06	Sicrhau y caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer y gweithgareddau gorfodi a gynhwysir yn Y Safon eu hadolygu ar adegau priodol, a phryd bynnag y ceir newidiadau i ddeddfwriaeth neu arweiniad a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon - 4.1]	MRF/GWJ/PAH/BAO

Adolygu'r weithdrefn bresennol a gweithredu unrhyw newidiadau	31/03/06	i) Diwygio, cynnal a gweithredu'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer awdurdodi swyddogion ar sail eu cymhwysedd ac yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 5.1]	PAH/MRF/GWJ/ CP
Bydd adnoddau staff a'r gweithgareddau y bwriedir eu cynnal gan y staff hynny yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf (2006/7) wedi eu nodi'n eglur yng nghynllun gwasanaeth y flwyddyn honno. Dyletswydd yr Aelodau fydd penderfynu a oes digon o adnoddau	Mehefin 2006 (pan drefnir i'r Cynllun Gwasanaeth gael ei gyflwyno i'w ystyried gan yr Aelodau	ii) Sicrhau ei fod wedi penodi digon o swyddogion awdurdodedig i gyflawni'r rhaglen a nodwyd yn ei gynllun darparu gwasanaeth, a bod gan swyddogion gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad addas, sy'n cyd-fynd â'u hawdurdodiad a'u dyletswyddau yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 5.3]	MRF/GWJ/CP
Sefydlu a gweithredu cynllun hyfforddi	31/03/06	iii) Sefydlu, cynnal a gweithredu rhaglen hyfforddi ddogfenedig, a fydd yn cynnwys agweddau ar y gwaith y mae ei swyddogion yn ei wneud. Lle darperir hyfforddiant, dylid cadw manylion am gynnwys ac amcanion y cwrs, ei barhad ac unrhyw asesiad ar yr hyfforddiant ar ffeil. [Y Safon – 5.4]	MRF/GWJ/CP

Adolygu	31/03/06	iv) Sicrhau y cedwir cofnodion am gymwysterau academaidd neu gymwysterau eraill perthnasol, hyfforddiant a phrofiad pob swyddog awdurdodedig a staff cymorth priodol yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 5.5]	MRF/GWJ
Adolygu a gwirio.	31/03/06	i) Adolygu ei weithdrefn ar gyfer cynnal a chalibro offer i sicrhau ei bod yn cynnwys manylion am amlder a dull gwiriadau mewnol. [Y Safon – 6.2]	PAH
Adolygu a gwirio.	31/03/06	ii) Cofnodi gwybodaeth berthnasol am waith calibro a gwirio a wneir ar offer. [Y Safon – 6.3]	PAH
Trefnu i gwmni meddalwedd Flare adolygu'r ffordd y gweithredwn ein system	31/03/06	iii) Sicrhau y gweithredir y system feddalwedd gyfrifiadurol yn y fath fodd fel ei fod yn gallu rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r Asiantaeth. [Y Safon – 6.4]	MRF/GWJ

Peidio â newid dyddiadau'r arolygiadau nesaf mwyach (rhoddwyd cyfarwyddiadau i staff). Cynllun arolygu'n rhestru dyddiad yr arolygiad nesaf. Y rheolwr i gynnal cyfarfodydd rheolaidd â swyddogion i sicrhau y gwneir ymweliadau cyn pen 28 diwrnod i'r dyddiad y bônt i'w gwneud.	31/03/06	i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau hylendid bwyd yn ôl yr amledd a bennwyd gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 7.1]	MRF
Cynhyrchu a gweithredu	31/03/06	ii) Cynhyrchu a gweithredu gweithdrefnau arolygu dogfenedig ar gyfer Safleoedd Cymeradwy a sicrhau y cynhelir yr holl weithdrefnau arolygu dogfenedig. [Y Safon – 7.4]	PAH/MRF
Rhestrau arolygu i'w llunio ar ddechrau'r flwyddyn i gynnwys dyddiadau'r ymweliadau nesaf. Y rheolwr i gynnal cyfarfodydd rheolaidd â swyddogion i sicrhau y gwneir ymweliadau cyn pen 28 diwrnod i'r dyddiad y bônt i'w gwneud.	31/03/06	Sicrhau y cynhelir arolygiadau safonau bwyd yn ôl yr amledd a bennwyd gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 7.1]	GWJ
Llunio gweithdrefn arolygu safleoedd bwydydd anifeiliaid a sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r weithdrefn ac yn ei dilyn. Adolygu'r weithdrefn yn rheolaidd.	31/03/06	Sicrhau y cynhelir arolygiadau o safleoedd bwydydd anifeiliaid yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau ac yn unol ag arweiniad a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon - 7.1]	GWJ

Llunio gweithdrefn cwyno am fwydydd anifeiliaid a sicrhau y caiff y weithdrefn ei dilyn. Adolygu'r weithdrefn yn rheolaidd.	31/03/06	Sefydlu a chynnal gweithdrefn ddogfenedig i ymdrin â chwynion am fwydydd anifeiliaid a sicrhau y caiff gweithdrefnau dogfenedig eu gweithredu'n llawn. [Y Safon – 8.1]	GWJ
Rhoi cyngor i fusnesau'r awdurdod cartref mewn ffordd ragweithiol ac adweithiol.	31/03/06	Rhoi cyngor ar faterion safonau bwyd i fusnesau ar gydymffurfio â'r gyfraith lle maent yn gweithredu fel Awdurdod Cartref a/neu Wreiddiol. [Y Safon – 9.1]	GWJ
Cronfa ddata yn bodoli eisoes. Adolygu'r gronfa ddata yn unol â phwynt 11.9(ii) isod.	31/03/06	i) Cynnal y gronfa ddata o safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal. [Y Safon – 11.1]	GWJ/JS
Adolygu â Flare a Rheolwr y Swyddfa (Gweinyddwr y System). Creu system Rheoli Ansawdd ynghylch y data a fewnbynnir. Mae gweithredu'r system yn dibynnu ar adnoddau. I'w osod o flaen yr Aelodau yn rhan o'r broses gwneud cais am adnoddau	31/03/06	ii) Cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r gronfa ddata i nodi diffygion yn ei weithrediad ac yng nghywirdeb y data, a chymryd camau cywirol. [Y Safon - 11.2]	MRF/GWJ/JS
Adolygu	31/03/06	i) Sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyledus i natur yr holl sefydliadau bwyd yn yr ardal wrth sefydlu, cynnal a gweithredu ei raglen samplo safonau bwyd. [Y Safon – 12.3]	GWJ

Adolygu	31/03/06	ii) Adolygu a diweddaru ei benodiad o Ddadansoddwr Cyhoeddus, gan gymryd holl ofynion cyfreithiol perthnasol Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a Chodau Ymarfer cysylltiedig i ystyriaeth. [Y Safon – 12.7]	MRF/GWJ
Adolygu	31/03/06	Sicrhau y caiff bwydydd anifeiliaid eu samplo yn unol â rhaglen samplo bwydydd anifeiliaid yr Awdurdod, fel a fanylwyd yn y rhaglen Gwasanaeth. [Y Safon – 12.5]	GWJ
Cyflwyno system rheoli dogfennau, a fydd yn nodi'r holl bolisïau a gweithdrefnau. Caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau eu hadolygu erbyn 31/03/06, a chaiff dyddiadau adolygiadau blynyddol eu trefnu o leiaf	31/03/06	i) Sicrhau y caiff ei weithdrefnau dogfenedig eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd yn ôl y gofyn, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid eraill. [Y Safon – 13.1]	MRF/GWJ/CP/PAH (RSD ar gyfer gwaith clefydau heintus)
Atgoffa swyddogion am yr angen i gofnodi pan nad oes angen cyfarfod rheoli achos	31/03/06	ii) Sicrhau y caiff ei weithdrefn ddogfenedig ar gyfer delio ag achosion achlysurol o heintiad sy'n gysylltiedig â bwyd ei weithredu'n llawn gan swyddogion wrth gynnal ymchwiliadau ac y cedwir cofnodion priodol. [Y Safon – 13.2]	RSD

Ysgrifennu polisi ar y cyd rhwng adain Diogelwch Bwyd ac adain Safonau Masnach ynghylch ymdrin â Rhybuddion Bwyd mewn cydymffurfiad â COP sy'n gymwys ar ôl 1 Ion 06. Gweithdrefnau Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach i gael eu hadolygu.	31/03/06	i) Dogfennu trefniadau'r Adain Safonau Masnach ar gyfer ymdrin â Rhybuddion Perygl Bwyd ac ar gyfer rhoi gwybod i ASB am ddigwyddiadau bwyd perthnasol sy'n digwydd o fewn ardal yr Awdurdod. [Y Safon – 14.1]	PAH/GWJ/MRF
Fel uchod. Cydweithio â gwasanaeth y tu allan i oriau gwaith (TAOG) Conwy ar drefniadau, gan roi cyfeiriad e-bost TAOG i ASB	31/03/06	ii) Sicrhau bod ei weithdrefnau dogfenedig ar gyfer ymateb i Rybuddion Perygl Bwyd a dderbynnir oddi wrth ASB yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cysylltu priodol rhwng rheolwyr perthnasol, ac ar gyfer sicrhau y caiff Rhybuddion Perygl Bwyd a dderbynnir y tu allan i oriau gwaith arferol ymateb priodol ac amserol. [Y Safon – 14.1]	MRF/GWJ
Adolygu'r polisi gorfodi a threfnu sesiynau ymwybyddiaeth i'r holl swyddogion. Llunio gweithdrefnau gorfodi.	31/03/06	Sicrhau y gwneir yr holl benderfyniadau am gamau gorfodi ar ôl ystyried ei Bolisi Gorfodi. Dylid dogfennu'r rhesymau dros unrhyw wyriad o'r meini prawf a nodir yn y Polisi Gorfodi. [Y Safon – 15.3]	PAH/CP/MRF/GWJ

Adolygu	31/03/06	Sicrhau bod cofnodion safonau bwyd a safleoedd bwydydd anifeiliaid yn cynnwys adroddiadau am yr holl arolygiadau ac ymweliadau, asesiadau o gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, asesiadau graddio risg, canlyniadau samplau a manylion camau dilynol, manylion am gwynion, camau anffurfiol a ffurfiol, copïau o ffurflenni cais a phenderfyniadau ynghylch cofrestru, a chymeradwyo, a chopïau o'r holl dystysgrifau a gohebiaeth. [Y Safon – 16.1]	GWJ
Adolygu'r weithdrefn a luniwyd ym mis Ionawr 05, sy'n benodol i Ddiogelwch Bwyd, ac asesu a ellid dyfeisio gweithdrefn gyffredin ar gyfer Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd. Mae angen llunio gweithdrefnau newydd i gydymffurfio ag Adran 7.1.2 y COP newydd a fydd yn berthnasol ar ôl Ionawr 06	31/03/06	i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol dogfenedig, yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 19.1]	MRF/GWJ/CP

Ddim yn bosibl â'r adnoddau presennol. Adrodd i'r Aelodau am yr angen i sefydlu a darparu adnoddau ar gyfer trefniadau QC mewnol	31/03/06	ii) Gwirio cydymffurfiad â'r Safon, y ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd, arweiniad perthnasol a gyhoeddwyd yn ganolog, a'i bolisïau a'i weithdrefnau dogfenedig ei hun o ran holl agweddau'r gwasanaeth. [Y Safon - 19.2]	CP
Sicrhau y cynllunnir ac y gwneir peth gwaith hyrwyddo bwydydd anifeiliaid bob blwyddyn.	31/03/06	Sicrhau ei fod yn ehangu ei weithredoedd hyrwyddo i gynnwys bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 21.1]	GWJ